# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Adroddiad

**Mawrth 2021**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

# Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Ronnie Alexander
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

# Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Lleu Williams, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

**Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Adroddiad

**Mawrth 2021**

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

# Cynnwys


1. Rhagair y Cadeirydd ......6
2. Crynodeb o'r penderfyniadau ......8
3. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ......10
4. Cefndir a methodoleg ......12
5. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Penderfyniadau ......16
6. Cydraddoldeb ......40
7. Edrych tua'r dyfodol ......41

Atodiad A: Aelodaeth y Bwrdd ......42

# 1. Rhagair y Cadeirydd

Mae Aelodau o’r Senedd yn cael eu hethol i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif; cynrychioli buddiannau eu hetholwyr; deddfu; a phennu trethi Cymru. Er nad yw’r cyfrifoldebau hyn wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, mae pandemig Covid-19 wedi chwyldroi'r ffordd y cyflawnir y cyfrifoldebau hynny. Am y tro cyntaf ers sefydlu'r Senedd, mae'r Aelodau'n gweithio gartref yn bennaf. Cynhelir y Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau ar-lein neu fel hybryd o bresenoldeb yn y Senedd ac ar-lein. Mae’r Aelodau'n ymgysylltu â'u hetholwyr drwy lwyfannau fideo ar-lein gyda chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, er bod coridorau Tŷ Hywel a’r Senedd yn dawelach, nid yw llwyth gwaith yr Aelodau wedi gostegu o gwbl. Mae craffu ar ddeddfwriaeth Covid-19 a Brexit, yn ogystal ag ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau eraill, wedi rhoi pwysau mawr ar y Senedd a'i Haelodau. Mae'r Aelodau wedi gweithio'n galed i gefnogi eu hetholwyr, y mae llawer ohonynt yn wynebu caledi ariannol sylweddol a heriau amrywiol eraill sy'n deillio o'r pandemig.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy’n gyfrifol am benderfynu’r cyflogau a lwfansau sydd ar gael i’r Aelodau. Wrth wneud hynny, mae’n rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod cyflog yr Aelodau a’u pecyn tâl cyfan yn adlewyrchu'n deg y cyfrifoldebau y maent yn eu cyflawni a bod y lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau’n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Ar yr un pryd, mae’n rhaid i'r Bwrdd gadw gwerth am arian i'r trethdalwr wrth wraidd ei benderfyniadau.

Dyma'r nodau y gwnaethon ni, aelodau'r Bwrdd, geisio eu cyflawni drwy'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Mae ein penderfyniadau dilynol yn adlewyrchu'r pwysau ychwanegol ar yr Aelodau y mae’r pandemig wedi’u creu ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae cyflogau'r Aelodau wedi'u rhewi a bydd hynny’n parhau am y flwyddyn i ddod. Nod penderfyniadau’r Bwrdd hefyd oedd rhoi eglurder i'r rhai sy'n ystyried sefyll etholiad i'r Chweched Senedd ar y pecyn tâl sydd ar gael i Aelodau o’r Senedd.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i’r holl bobl a ymgysylltodd â'i broses ymgynghori ar y cynigion a rhannu eu safbwyntiau. Mae'r Bwrdd wedi ystyried y safbwyntiau hyn yn ofalus fel yr adlewyrchir gan y penderfyniadau a amlinellir yn y ddogfen hon. Bydd yr holl benderfyniadau’n cael eu hadolygu yn ystod y Chweched Senedd, yn unol â dulliau adolygu’r Bwrdd, i sicrhau y gall yr Aelodau gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol wrth sicrhau gwerth rhagorol am arian i'r trethdalwr hefyd, fel bob amser.

Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

# 2. Crynodeb o'r penderfyniadau

**1.** Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") ei **Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** a nododd y tâl a'r lwfansau a fyddai ar gael i Aelodau o'r Senedd yn dilyn etholiad cyffredinol Cymru, a drefnir ar gyfer mis Mai 2021. Mae'r adroddiad hwn yn nodi cynigion gan y Bwrdd ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad hwnnw a'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn sgil ymgynghoriad ar y newidiadau hynny. Mae rhai penderfyniadau a wnaed o'r blaen wedi'u hadolygu o ganlyniad i'r pandemig [a Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws)], ac mae eraill yn faterion arferol ar gyfer adolygiad blynyddol y tynnwyd sylw atynt yn adroddiad y Bwrdd blaenorol a oedd yn cyd-fynd â'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020.

**2.** Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2020 ac 11 Chwefror 2021. Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Bwrdd ar y newidiadau a ganlyn i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

- y bydd cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, sydd wedi'u rhewi gan y Bwrdd yn 2020-21, hefyd yn cael eu rhewi ar gyfer blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd (2021-22) a gweddill tymor y Senedd bresennol (2020-21);
- y byddai newidiadau cyflog blynyddol ar gyfer yr Aelodau, a deiliaid swyddi ychwanegol, o 2022-23, yn destun uchafswm cynnydd tri y cant wedi'i fynegeio yn ôl yr ASHE a diystyru unrhyw ostyngiad i'r cyflogau hyn yn y Chweched Senedd;
- peidio â newid y cyfraddau presennol a ddarperir ar gyfer gwariant llety preswyl ddechrau'r Chweched Senedd;
- dileu cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd a "Brwsel" o'r Penderfyniad sy'n ymwneud â theithio gan yr Aelodau;
- y byddai darpariaeth deunydd ysgrifennu'n symud o Gomisiwn y Senedd ac, yn lle hynny, yn cael ei ariannu o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Er mwyn adlewyrchu'r newid hwn, byddai'r lwfans yn cynyddu mewn modd niwtral o ran cost £1,800 i £20,060 (neu £6,712 pan fo'r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig) ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd;

- na fydd cynnydd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â newid enw'r Senedd ac y dylai'r Aelodau adennill y costau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad o'r lwfans hwn yn ystod tymor y Senedd nesaf;

- y byddai newidiadau cyflog blynyddol staff cymorth o 2022-23 yn destun uchafswm cynnydd tri y cant wedi'i fynegeio yn ôl yr ASHE a diystyru unrhyw ostyngiad i'r cyflogau hyn yn y Chweched Senedd;

- gwella'r cynllun pensiwn staff cymorth drwy gyflwyno cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at dri y cant o'r cyflog;

- dileu canllawiau a fandadwyd gan y Bwrdd ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar gyfer y Chweched Senedd, ac egluro'r terfyn amser ar ddefnyddio'r lwfans gan bleidiau gwleidyddol yn ystod blwyddyn etholiad;

- mai dim ond o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y caniateir hawlio costau argraffu ac arwyddion;

- cynyddu gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd;
- newid diffiniad 'pleidiau gwleidyddol' yn adran 'Dehongli' y Penderfyniad i:

  *Ystyr "plaid wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol neu (ii) wedi'i chydnabod fel grŵp o dan Reol Sefydlog 1.3(ii), neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig.*
- Mewnosod adran newydd ar bwynt 2.5 o'r Penderfyniad i egluro ystod o gymorth i'r Aelodau y gellir ei ddarparu y tu allan i lwfansau a bennwyd yn benodol o dan y Penderfyniad;

- cynnwys cyfeiriad penodol at y polisi amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus yn y Penderfyniad ym Mhenodau 7 ac 8.

# 3. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

## Mae'r adran hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

### Swyddogaethau'r Bwrdd

**3.** Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o’r Senedd (yr Aelodau), er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol a galluogi'r rhai a etholir i wneud eu gwaith yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Mae manylion llawn am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u nodi yn ***Neddf Llywodraeth Cymru 2006*** (y Ddeddf) ac ym ***Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*** (y Mesur).

**4.** Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

- darparu lefel o dâl i’r Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag sefyll etholiad i'r Senedd;
- darparu adnoddau digonol i’r Aelodau i'w galluogi i ymgymryd â’u swyddogaethau;
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

**5.** Mae’r Mesur yn dweud mai dim ond un penderfyniad y caiff y Bwrdd ei wneud ym mhob un o dymhorau pum mlynedd y Senedd ar gyflogau’r Aelodau, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol. Dim ond pan fydd amgylchiadau eithriadol yn golygu y byddai'n gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny y gellir gwneud ail benderfyniad neu benderfyniad dilynol ar gyflogau o'r fath ar gyfer yr un tymor pum mlynedd yn y Senedd.

**6.** Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd barhau i adolygu'r Penderfyniad. Hyd yn hyn, mae'r Bwrdd wedi arfer y ddyletswydd hon drwy gynnal adolygiad blynyddol o'r

Penderfyniad, yn ogystal ag adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer pob Senedd newydd. Mae hefyd yn adolygu'n rheolaidd effaith y penderfyniadau y mae wedi'u gwneud, yn ôl yr angen.

**7.** Wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys paratoi Penderfyniad, mae'r Bwrdd yn ymgynghori, oni bai ei fod o'r farn ei bod yn anaddas gwneud hynny oherwydd yr amgylchiadau, ag Aelodau o'r Senedd, eu staff, undebau llafur a phersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef.

## Egwyddorion arweiniol y Bwrdd

**8.** Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Bwrdd blaenorol ei strategaeth ar gyfer ei waith drwy gydol y Bumed Senedd. Mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion a ganlyn a ddiffiniwyd yn glir i fod yn sail i waith y Bwrdd sydd wedi parhau i lywio ei ddull gweithredu ac a adlewyrchir yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd:

- dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau;
- mae'n rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
- rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

# 4. Cefndir a methodoleg

## Mae'r adran hon yn esbonio dull y Bwrdd o adolygu'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

### Adolygiad llawn o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

**9.** Cyhoeddodd y Bwrdd blaenorol, a benodwyd yn 2015, ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd ym mis Mehefin 2020. Dyma'r prif newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd:

- cyflwyno lwfans i'r Aelodau i helpu i dalu costau mewn perthynas ag anabledd neu anableddau. Gellir defnyddio'r lwfans hwn i gefnogi Aelodau anabl a'u staff cymorth, ac i helpu'r Aelodau i ymgysylltu ag etholwyr anabl, drwy dalu costau unrhyw 'addasiad rhesymol' sydd ei angen, er enghraifft, addasiadau i swyddfeydd. Roedd hyn yn ehangu darpariaeth bresennol;
- cyflwyno adnoddau ychwanegol i helpu gyda llwyth gwaith Aelod yn ystod ei gyfnod o absenoldeb rhiant. Gall cymorth o'r fath fod ar ffurf naill ai aelod staff ychwanegol neu adnodd ychwanegol yn ôl yr angen. Gallai'r math penodol o gymorth sydd ei angen amrywio yn ôl anghenion yr Aelod;
- cyflwyno cyfraniad at gostau gofal plant a/neu ddibynyddion pan fo'n rhaid i'r Aelodau weithio y tu hwnt i oriau sy'n ystyriol o deuluoedd, gan adlewyrchu trefniadau tebyg sydd ar waith ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ad-dalu costau o'r fath yn ddarostyngedig i derfyn misol penodol, a dim ond ar gyfer gofal a ddarperir gan ddarparwyr gofal rheoleiddiedig y maent yn daladwy;
- ynghylch cyflogau'r Aelodau, penderfynodd y Bwrdd na ddylai lefelau cyflog sylfaenol ac ychwanegol deiliaid swyddi newid ar gyfer y Chweched Senedd, yn ddarostyngedig i addasiad blynyddol yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) - enillion canolrifol gros ar gyfer swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru. Nododd y Bwrdd ar y pryd nad oedd y goblygiadau llawn i rolau a chyfrifoldebau Aelodau o ganlyniad i ddatblygiadau cyfansoddiadol yng Nghymru yn glir eto. Ymhellach, dywedodd y byddai ffactorau allanol o'r fath, yn ogystal â'r ffordd y mae'r Senedd, ei phwyllgorau a'i Haelodau'n penderfynu ymateb, yn dylanwadu ar newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau. Daeth i'r casgliad nad

yw'r ffactorau hyn yn sbardun ar gyfer newidiadau i gyflogau’r Aelodau neu ddeiliaid swyddi ar hyn o bryd.

## Penderfyniadau eithriadol

**10.** Mae’r Penderfyniad yn darparu ar gyfer addasu cyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn awtomatig ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â’r newid yn enillion canolrifol gros yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)[1] ar gyfer swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru. Mae hyn yn darparu addasiadau blynyddol i gyflogau’r Aelodau yn unol â’r newidiadau cyfartalog yn enillion gweithwyr yng Nghymru.

**11.** Oherwydd ansicrwydd ynghylch y dirywiad economaidd a ragwelir yn sgil pandemig COVID-19, gwnaeth y Bwrdd benderfyniad eithriadol[2] ar 30 Mawrth 2020, i atal addasiadau i gyflogau’r Aelodau am chwe mis o’r dyddiad hwnnw. Felly, gohiriwyd tan 1 Hydref 2020 y cynnydd 4.4 y cant (yn unol â’r ASHE) i gyflogau’r Aelodau y bwriadwyd ei dalu ar 1 Ebrill 2020.

**12.** Yn dilyn hynny, wrth i'r ansicrwydd economaidd barhau yn yr hydref, datgymhwysodd y Bwrdd y cynnydd yng nghyflogau'r Aelodau y bwriadwyd ei dalu ar 1 Hydref drwy gyhoeddi penderfyniad eithriadol arall a wnaed ar 29 Medi 2020. Gwnaed hyn drwy ddileu paragraff 2.3 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau: 2020-2021 sy'n darparu ar gyfer cynnydd wedi’i fynegeio yn ôl yr ASHE i gyflogau’r Aelodau. Roedd hyn yn golygu na fyddai'r Aelodau'n cael codiad cyflog tan ddechrau'r Chweched Senedd.

## Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

**13.** Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o'r Penderfyniad i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn adlewyrchu cyd-destun presennol Cymru, yn enwedig yr amodau economaidd diweddaraf yng Nghymru.

---

[1] Ystyr ASHE yw’r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Bydd tâl Aelodau, deiliaid swyddi a staff yn cael ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â’r newid yn enillion canolrifol gros swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn yr ASHE rhwng mis Ebrill y flwyddyn flaenorol a mis Ebrill y flwyddyn honno.

[2] Mae hyn yn golygu y gall y Bwrdd wneud penderfyniadau eithriadol dan rai amgylchiadau pan fo'n credu ei bod yn rhesymol ac yn gyfiawn gwneud hynny. Os bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniad o’r fath, mae’n rhaid iddo roi gwybod i Gomisiwn y Senedd yr un pryd ag y daw i rym.

**14.** Cynhaliodd y Bwrdd newydd a benodwyd ym mis Medi 2020 adolygiad blynyddol o'r **Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd** a gyhoeddwyd gan y Bwrdd blaenorol (ym mis Mehefin 2020). Nod allweddol yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn briodol yng nghyd-destun pandemig Covid-19 a'i effaith economaidd a chymdeithasol gysylltiedig. Hefyd, roedd angen iddo sicrhau bod y Penderfyniad yn parhau i fod yn addas o gofio'r effaith ar fusnes y Senedd.

**15.** Cafodd trafodaeth y Bwrdd am newidiadau angenrheidiol i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, yn enwedig ar gyflogau, cymorth a lwfansau'r Aelodau, ei llywio gan ystod o ffynonellau, gan gynnwys:

- sut y mae'r Aelodau wedi defnyddio'r lwfansau amrywiol yn ystod y Bumed Senedd hyd yn hyn;
- cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn seneddau eraill y DU;
- cymariaethau â mesurau amrywiol eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac economi ehangach Cymru.

**16.** Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys materion a oedd yn weddill o adolygiad blaenorol y Bwrdd o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, a gynhaliwyd yn 2019-2020, fel yr amlinellwyd yn **adroddiad** yr adolygiad hwnnw.[3]

**17.** Wedi nodi'r newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd a oedd yn angenrheidiol ym marn y Bwrdd, cyhoeddodd y Bwrdd **ddogfen ymgynghori** ar 16 Rhagfyr 2020 yn nodi ei gynigion ar gyfer newid. Rhannwyd y ddogfen ymgynghori hefyd â rhanddeiliaid y Bwrdd, gan gynnwys yr Aelodau, eu staff cymorth, pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd, Comisiwn y Senedd a'r cyfryngau, yn ogystal â nifer o gyrff allanol. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am gynigion y Bwrdd ar gyfer newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Hefyd, gofynnodd a allai newidiadau arfaethedig y Bwrdd fod â goblygiadau i bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*.

**18.** Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd â grwpiau cynrychioliadol ar ran yr Aelodau a staff cymorth yr Aelodau cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad. Defnyddiodd y Bwrdd y cyfarfodydd hyn

---

[3] Gweler adran 5 'Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer 2021-2026 – canlyniadau'

i nodi ei gynigion ar gyfer newid a'r rhesymau dros y cynigion hynny, er mwyn helpu i lywio'r broses i grwpiau'r pleidiau gwleidyddol, yr Aelodau a'u staff drafod y cynigion hyn. Trafododd y Bwrdd adborth ar gynigion a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd hyn fel rhan o'i drafodaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**19.** Cafodd y Bwrdd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan y canlynol:

- dau aelod o'r cyhoedd;
- Neil McEvoy AS (Aelod o'r Senedd);
- Comisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd;
- Grŵp Llafur yn y Senedd;
- Grŵp y Ceidwadwyr yn y Senedd;
- Plaid Diddymu Cynulliad Cymru;
- Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio yn y Senedd;
- un ymateb ar y cyd gan staff cymorth Grŵp Llafur a staff cymorth sy'n aelodau o'r undeb GMB.

**20.** Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad gan grwpiau gwleidyddol yn y Senedd yn gefnogol i gynigion y Bwrdd ac eithrio'r cynnig i gynyddu cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn unol â'r arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE). Roedd ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd yn canolbwyntio'n llwyr ar y cynnig i gynyddu cyflogau, ac roeddent yn ei wrthwynebu'n gryf. Rhoddir crynodeb o'r sylwadau gan ymatebwyr ar bob un o gynigion y Bwrdd yn adran 5 isod. Cyfarfu'r Bwrdd ar 4 Mawrth 2021 i drafod yr ymatebion i'w ymgynghoriad. Mae'r penderfyniadau a wnaeth y Bwrdd yn y cyfarfod hwnnw ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd hefyd wedi'u hesbonio yn adran 5.

**21.** Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys datganiad ar sut y byddai'r Bwrdd yn defnyddio'r wybodaeth a roddodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn unol â pholisi preifatrwydd y Bwrdd - **https://www.bwrddtaliadau.cymru/polisi-preifatrwydd-2/**.

# 5. Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd: Penderfyniadau

**Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o benderfyniadau'r Bwrdd ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Mae hefyd yn crynhoi'r sylwadau gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Bwrdd. Daw'r holl newidiadau i rym ar y diwrnod cyntaf yn dilyn etholiad nesaf y Senedd yn 2021.**

## Cynnig 1: Cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol

### Cynigion y Bwrdd

**22.** Mae Pennod 3 o'r **Penderfyniad** a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 yn nodi'r cyflog blynyddol a fyddai ar gael i Aelodau o'r Chweched Senedd, yn ogystal â thâl ar ben y cyflog sylfaenol hwnnw a delir i ddeiliaid swyddi ychwanegol, megis y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Gweinidogion a Chadeiryddion Pwyllgorau. Y cyflog sylfaenol i'r Aelodau a nodwyd yn y Penderfyniad oedd £70,626. Roedd y cyflog hwn a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yn seiliedig ar gyflogau 2019-20, gyda chynnydd 4.4 y cant i roi cyfrif am yr addasiad yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a ddisgwyliwyd ym mis Ebrill 2020. Darparodd y Penderfyniad hefyd i'r cyflogau gael eu haddasu yn unol â'r ASHE ym mis Ebrill 2021.

**23.** Fodd bynnag, roedd dau benderfyniad eithriadol a wnaeth y Bwrdd ym mis Mawrth a mis Medi 2020 i ohirio a datgymhwyso cynnydd arfaethedig i gyflogau'r Aelodau yn golygu bod cyflog sylfaenol yr Aelodau wedi'i rewi ar £67,649 drwy gydol blwyddyn ariannol 2020-21. Hefyd, ni fyddai'r cyflogau'n ddarostyngedig i godiadau cyn dechrau'r Chweched Senedd.

**24.** Wrth drafod newidiadau sydd eu hangen i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, daeth y Bwrdd i'r casgliad ddiwedd 2020, bod pandemig Covid-19 a rhewi cyflog sylfaenol yr Aelodau drwy gydol 2020-21, yn amgylchiadau eithriadol a oedd yn ei gwneud yn rhesymol i'r Bwrdd ailedrych ar y penderfyniad ar gyflogau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd.

**25.** Roedd rhewi cyflogau'r Aelodau yn ystod 2020-21 yn golygu gostyngiad bach yn y cyflogau mewn termau real, o ystyried cynnydd mewn costau chwyddiant. Roedd y Bwrdd o'r

farn y gallai parhau i rewi cyflogau arwain at sefyllfa lle na fyddai’r cyflogau’n adlewyrchu cymhlethdod y rolau a gyflawnir gan yr Aelodau mwyach. Canlyniad hyn o bosibl fyddai'r angen i gynyddu’r cyflogau’n sylweddol yn y dyfodol.

**26.** O gofio’r ystyriaethau hyn, cynigiodd y Bwrdd, fel rhan o'i ymgynghoriad, ailgymhwyso mynegeio blynyddol cyflogau'r Aelodau yn ôl mynegai’r ASHE, o ddechrau'r Chweched Senedd (cynnig 1). Nododd y ddogfen ymgynghori fwriad y Bwrdd i gymhwyso mynegai’r ASHE, sef 2.4 y cant (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020) i'r cyflog sylfaenol wedi'i rewi, sef £67,649. Felly, £69,273 y flwyddyn fydd cyflog sylfaenol yr Aelodau ddechrau'r Chweched Senedd, a bydd eu cyflogau’n parhau i fod yn gysylltiedig â’r ASHE bob blwyddyn wedi hynny.

**27.** Fel y nodwyd, roedd y Bwrdd hefyd yn ymwybodol y gall addasiadau cyflog yn unol â’r ASHE, gan ei fod yn ymwneud â chyflogau Cymru, fod yn ansefydlog fel dros y ddwy flynedd diwethaf.

**28.** Er mwyn mynd i’r afael â risg anwadaliadau mawr yn y mynegai yn y dyfodol, cynigiodd y Bwrdd newidiadau i’r Penderfyniad er mwyn sicrhau na fydd cyflogau’r Aelodau yn y dyfodol yn cynyddu uwchlaw terfyn uchaf tri y cant nac yn gostwng (cynnig 1.c). Bydd hyn yn osgoi'r risg y caiff codiadau cyflog eu cymhwyso yn y dyfodol sy'n anghymesur yng nghyd-destun yr amodau economaidd ar y pryd. Ym marn y Bwrdd, byddai hyn yn deg i'r Aelodau ac i drethdalwr Cymru a byddai'n rhoi sicrwydd ynghylch yr isafswm cyflog a fyddai'n cael ei dalu i'r Aelodau yn ystod tymor y Senedd.

**29.** Dyma gynigion y Bwrdd ar gyflogau’r Aelodau:

Cynnig 1. Yn sgil yr amgylchiadau economaidd presennol, ar ôl rhewi cyflogau’r Aelodau yn 2019/20, mae'r Bwrdd yn cynnig:

a. o ran cyflogau 2020/21, parhau â phenderfyniad y Bwrdd i rewi cyflogau ar gyfradd 2019/20 (h.y. peidio â chymhwyso'r cynnydd 4.4 y cant mewn enillion cyfartalog a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn berthnasol);

b. o ran cyflogau 2021/22, cymhwyso’r cynnydd 2.4 y cant mewn enillion cyfartalog a gafwyd gan weithwyr eraill yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn berthnasol i’r cyflogau sylfaenol wedi’u rhewi. Mae hyn yn golygu mai £69.273 fydd cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd, yn hytrach na £72,321 fel y cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020;

c. cyflwyno terfyn uchaf blynyddol tri y cant ar gyfer y cynnydd ym mynegai'r ASHE ac ni fydd gostyngiad llai na sero y cant i gyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.

## Barn am gynigion y Bwrdd

**30.** Nododd Grŵp Llafur a'r Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio eu cefnogaeth i gynnig 1a.

**31.** Roedd Grŵp y Ceidwadwyr a'r Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio yn gefnogol i gynnig 1c.

**32.** Ni chafwyd sylwadau eraill ar gynigion 1a ac 1c.

**33.** Denodd Cynnig 1b lawer mwy o sylw gan yr ymatebwyr nag unrhyw gynnig arall. Roedd un aelod o'r cyhoedd, un Aelod o'r Senedd a'r pleidiau gwleidyddol a ymatebodd i'r ymgynghoriad oll yn gwrthwynebu cynnig 1b. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr o'i blaid. Mynegwyd y teimladau hyn hefyd gan y grŵp cynrychioliadol ar ran Aelodau o'r Senedd yn ystod eu cyfarfod â'r Bwrdd ar 3 Chwefror 2021.

**34.** Roedd barn yr ymatebwyr ynghylch pa mor hir y dylai'r cyflogau barhau i gael eu rhewi'n amrywio. Dywedodd Neil McEvoy AS y dylid rhewi cyflogau am y ddwy flynedd ariannol nesaf. Nododd Grŵp Llafur y dylai cyflogau barhau i gael eu rhewi nes i'r amgylchiadau ariannol yng Nghymru wella.

**35.** Ochr yn ochr â'r ymatebion hyn, trafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael am yr amodau economaidd cyfredol, yn enwedig y tueddiadau cyflog presennol yng Nghymru ac ymhellach. Dangosodd data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) dwf tua 2 y cant yng nghyflogau cyfartalog Prydain Fawr.[4] Fodd bynnag, cydnabu'r SYG fod cwymp yn nifer a chyfran y swyddi ar gyflog is yn effeithio ar gyfraddau twf cyflog cyfartalog o gymharu hynny â'r adeg cyn pandemig Covid-19.

## Penderfyniadau'r Bwrdd

*Cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol*

4 https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/averageweeklyearningsingreatbritain/january2021?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/averageweeklyearningsingreatbritain/january2021

**36.** Trafododd y Bwrdd y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan yr Aelodau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn sgil amgylchiadau'r pandemig sy'n peri straen. Er na fu newid sylweddol yn eu cyfrifoldebau dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd yn bendant bod llwythi gwaith yr Aelodau wedi cynyddu. Mae adborth a roddwyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn nodi'r cynnydd sylweddol mewn gwaith achos yr ymgymerodd yr Aelodau ag ef. Ar yr un pryd, mae'r Aelodau wedi bod yn ymgymryd â lefelau uwch o waith craffu ar faterion Covid-19 a Brexit. Fodd bynnag, barn y Bwrdd yw y dylai benderfynu lefelau cyflog ar gyfrifoldeb, nid llwyth gwaith. Hefyd, trafododd y Bwrdd y data diweddaraf ar effaith economaidd pandemig Covid-19 yng Nghymru.

**37.** Mae'n flwyddyn ers dechrau'r pandemig yng Nghymru. Mae'r amodau economaidd anffafriol a achosir gan y pandemig yn parhau i beri ansicrwydd mawr o ran yr effaith ar incwm gweithwyr yng Nghymru. Yn unol ag egwyddor arweiniol y Bwrdd, sef sicrhau bod ei benderfyniadau'n briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru, trafododd y Bwrdd wybodaeth am y tueddiadau cyflog presennol yng Nghymru a'r DU.

**38.** Mae'r Bwrdd o'r farn bod y darlun cyffredinol ynghylch sut mae cyflogau cyfartalog yn newid wedi'i guddio gan effaith y pandemig. 4.7 y cant yw amcangyfrif diweddaraf y SYG o dwf blynyddol yn enillion cyfartalog y DU, hyd at fis Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae'r SYG yn nodi bod cyfraddau twf cyflogau cyfartalog yn uwch oherwydd cwymp yn nifer a chyfran y swyddi ar gyflog is o gymharu hynny â'r cyfnod cyn y pandemig. Mae'r mater hwn hefyd yn effeithio ar ddangosyddion chwyddiant cyflogau eraill y SYG a Cyllid a Thollau EM sy'n cwmpasu Cymru neu'r DU. Ystyriwyd nad oes data ar gael i gyflwyno darlun realistig o newidiadau mewn cyflogau cyfartalog yng Nghymru. Hefyd, nododd y Bwrdd na fydd y dangosydd a ffefrir[5] ganddo, sef newidiadau cyflog yng Nghymru, yn dangos beth yw effaith y pandemig ar gyflogau Cymru tan o leiaf hydref 2021. Y rheswm dros hyn yw bod y data'n destun gohiriad chwe mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.

**39.** Trafododd y Bwrdd ystadegau economaidd ehangach a gyhoeddwyd ers i'r Bwrdd gyhoeddi ei ymgynghoriad, a oedd yn dangos maint effaith y pandemig ar yr economi. Nodwyd y gostyngodd Cynnyrch Domestig Gros (CDG) 9.9 y cant yn 2020. Dyma'r gostyngiad mwyaf o unrhyw un o'r Grŵp o Saith o wledydd (G7 o wledydd). Hefyd, dyma'r dirywiad mwyaf yn CDG y DU ers 1709. Dangosodd ffigurau diweithdra diweddaraf y SYG ar

[5] The Annual Survey of Hours and Earnings. Members' salaries have historically been indexed by the change in the ASHE (Annual Survey of Hours and Earnings), gross Median Earnings for full-time employee jobs in Wales between April and April of the previous year.

gyfer Cymru (a gyhoeddwyd ar 23 Chwefror 2021) mai 4.4 y cant oedd y gyfradd ar gyfer mis Medi i fis Rhagfyr 2020, 2,000 o bobl yn llai na'r chwarter blaenorol. Gan nad yw hyn yn cynrychioli cyflogeion sydd ar ffyrlo, nid yw hyn yn cynrychioli effaith lawn y pandemig ar ddiweithdra. Mae ystadegau Cyllid a Thollau EM yn dangos bod 155,500 o swyddi yng Nghymru ar ffyrlo ar 31 Rhagfyr 2020. Felly, 12 y cant yw'r gyfradd hawlio yng Nghymru, sy'n ffigur sylweddol ynddo'i hun. Er gwaethaf atgyfodiad economaidd am gyfnod y llynedd, mae cyfnodau clo a mesurau eraill wedi tolcio'r adfywiad. Ers i'r Bwrdd gyhoeddi ei ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, mae'r darlun economaidd wedi gwaethygu fel y dangosir gan y ffigurau a ystyriwyd.

**40.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y ffigurau hyn yn dangos yr effaith sylweddol y mae'r pandemig yn ei chael ar economi a phobl Cymru. Mae hyn yn bwysig gan mai un o egwyddorion arweiniol y Bwrdd yw sicrhau bod ei benderfyniadau'n briodol yng nghyd-destun enillion Cymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

**41.** Hefyd, trafododd y Bwrdd unfrydedd y gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer cynyddu cyflogau yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

**42.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod difrifoldeb effaith economaidd barhaus y pandemig yn golygu y byddai codiad cyflog yn amhriodol yng nghyd-destun cyflogau mewn mannau eraill yng Nghymru. Cytunodd y Bwrdd fod ei benderfyniadau ar hyn yn bwysig wrth gynnal hyder y cyhoedd ar adeg heriau digynsail i'r wlad. O gofio'r casgliadau hyn, penderfynodd y Bwrdd rewi cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol am ail flwyddyn.

**43.** Mae hyn yn golygu na fydd cyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn newid ddechrau'r Chweched Senedd na gweddill tymor y Senedd bresennol[6]. Mae penderfyniad y Bwrdd yn benderfyniad eithriadol (yn unol ag adran 13(3) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010). Er mwyn gweithredu hyn, bydd y cyflog sylfaenol a gynhwysir ym mharagraff 3.1.2 a'r cyflogau a gynhwysir yn Nhabl 1 ym mharagraff 3.1.4 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn cael eu diwygio i fod yr un peth â'r rhai sy'n daladwy ar hyn o bryd.

*Addasiad ASHE*

**44.** Hefyd, trafododd y Bwrdd ei gynnig i gyflwyno terfynau uchaf ac isaf ar addasu cyflogau. Nododd y Bwrdd lefel yr anwadaliad yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE),

[6] Currently May 2021 unless the election is postponed as per section 6 of the Welsh Elections (Coronavirus) Bill.

enillion canolrifol gros blynyddol swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru ar gyfer 2018/19 a 2019/20, ynghyd â’r effaith bosibl yn y mynegai yn y dyfodol yn sgil pandemig Covid-19.

**45.** Mae Nodiadau Esboniadol Mesur 2010 yn benodol yn nodi bod cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym yn enghraifft o amgylchiadau eithriadol sy’n cyfiawnhau ail benderfyniad neu benderfyniad dilynol gan y Bwrdd a ddaw i rym yn ystod tymor Senedd. Hefyd, rhoddodd y Bwrdd sylw i’w egwyddorion ei hun a nodwyd yn ei strategaeth ar gyfer 2017 wrth drafod y cynnig hwn.

**46.** Mae’r Bwrdd o’r farn bod yr anwadaliad diweddar, ynghyd â risg o oblygiadau parhaus yn y tymor hwy sy’n deillio o bandemig Covid-19, yn gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol sy’n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol newid y Penderfyniad mewn perthynas â’r dull o addasu cyflogau ar gyfer yr Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol.

**47.** Fel y cyfryw, penderfynwyd y byddai newidiadau cyflog blynyddol ar gyfer yr Aelodau, a deiliaid swyddi ychwanegol, o 2022-23, yn destun uchafswm cynnydd tri y cant wedi’i fynegeio yn ôl yr ASHE. Byddai’r penderfyniad hwn hefyd yn diystyru unrhyw ostyngiad i gyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn y Chweched Senedd.

**48.** Ym marn y Bwrdd, byddai hyn yn deg i'r Aelodau ac i drethdalwr Cymru. Hefyd, cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig i’r Aelodau gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch yr isafswm cyflog a fyddai'n cael ei dalu yn ystod tymor y Senedd, gan osgoi’r risg o gymhwyso gostyngiadau cyflog yn ystod tymor y Senedd.

**49.** I gloi, mae’r Bwrdd wedi penderfynu gweithredu rhai rhannau o’r cynnig hwn ar gyfer penderfyniad eithriadol eto mewn perthynas â chyflogau ar gyfer y Chweched Senedd a newid ei ddull gweithredu ar gyfer rhannau eraill.

## Cynnig 2. Lwfans Llety Preswyl

### Cynigion y Bwrdd

**50.** Mae Pennod 4 o’r Penderfyniad yn amlinellu’r cymorth sydd ar gael i’r Aelodau dalu costau y mae’n rhaid iddynt eu hysgwyddo o ganlyniad i aros i ffwrdd o’u prif gartrefi mewn cysylltiad â chyflawni eu rôl fel Aelodau.

**51.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar newidiadau arfaethedig i'r lwfans sydd ar gael i’r Aelodau dalu costau preswyl a ysgwyddir wrth arfer eu swyddogaethau fel Aelodau.

**52.** Caiff Aelodau y mae eu prif breswylfa yn yr "ardal allanol" (fel y'i diffinnir yn y Penderfyniad) hawlio hyd at £9,720 y flwyddyn (£810 y mis calendr) a chaiff y rhai sy'n byw yn yr "ardal ryngol" hawlio hyd at £6,840 y flwyddyn (£570 y mis calendr). Mae Pennod 4 hefyd yn rhoi lwfans i nifer fach o Aelodau hirsefydlog ar gyfer taliadau llog morgais ar eiddo a brynir yn ardal Caerdydd. Ni fydd y lwfans hwn ar gael i'r Aelodau ar ôl diddymu'r Chweched Senedd.

**53.** Trafododd y Bwrdd dueddiadau yn y costau llety preswyl yn ardal Caerdydd a defnydd yr Aelodau o'r lwfansau a amlinellir uchod. Trafododd y Bwrdd hefyd ddulliau uwchraddio gwahanol y gellid eu cymhwyso i'r lwfansau a ddarperir.

**54.** Dangosodd gwariant yr Aelodau yn erbyn eu lwfansau llety preswyl fod y lwfansau hynny'n gyffredinol ddigonol i dalu'r costau y mae'r Aelodau'n eu hysgwyddo. Roedd hawliadau'r rhan fwyaf o'r Aelodau hynny o fewn y trothwyon a ddarperir. Hefyd, dangosodd dadansoddiadau a roddwyd i'r Bwrdd y bu costau rhentu a gwestai yng Nghaerdydd yn rhesymol sefydlog. Hefyd, dangosodd y dadansoddiad hwn y gostyngodd cost fflat un ystafell wely ym Mae Caerdydd yn gyffyrddus o fewn y lwfans a ddarperir i Aelodau'r ardal allanol. Fel y cyfryw, nid oedd cynnydd i'r lwfansau presennol yn gyfiawn a chynigiodd y Bwrdd fod y cyfraddau presennol a ddarperir yn ddigonol ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**55.** Gwnaeth dau ymatebwr sylwadau ar y cynnig hwn. Nododd Grŵp Llafur fod rhai Aelodau, ar hyn o bryd, yn gorfod gwneud eu cyfraniadau eu hunain yn ychwanegol at y lwfans Gwariant ar Lety Preswyl er mwyn talu cost eu llety. Esboniodd Grŵp Llafur fod yr Aelodau, am resymau diogelwch, yn gyfyngedig o ran y llety sydd ar gael iddynt sy'n effeithio ar gostau rhent, h.y. mae hyn yn gwthio costau rhentu i fyny i'r Aelodau. Gofynnodd y Grŵp i'r Bwrdd sicrhau bod ei sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw benderfyniad ar y lwfans yn cael ei rhannu a chysylltu'n uniongyrchol â'r Aelodau sy'n hawlio'r lwfans er mwyn deall eu profiadau'n well.

**56.** Nododd Grŵp y Ceidwadwyr gefnogaeth i gynnig y Bwrdd, ond gofynnodd i'r Bwrdd adolygu digonolrwydd y lwfans Gwariant ar Lety Preswyl yn rheolaidd.

### Penderfyniadau'r Bwrdd

**57.** Trafododd y Bwrdd y system bresennol sydd ar waith. Daeth i'r casgliad mai'r system bresennol ar gyfer penderfynu cymhwysedd ar gyfer y lwfans Gwariant ar Lety Preswyl yw'r system fwyaf priodol sydd ar gael. Ym marn y Bwrdd, mae'n amlwg y byddai rhai Aelodau'n well neu'n waeth eu byd, gan ddibynnu ar y system sy'n cael ei mabwysiadu. Er enghraifft, un pryder

wrth benderfynu'r lwfans yn seiliedig ar filltiredd neu amser teithio yw bod y llwybr a ddilynir, a'r traffig arno, yn aml yn effeithio ar hynny.

**58.** Mae darpariaeth eisoes yn bodoli i'r Aelodau gyflwyno achos busnes y bernir bod eu prif gartref mewn ardal wahanol, pan fo'r Aelod yn credu y byddai hyn yn rhesymol.

**59.** Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar ddarpariaethau'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl, a'r darpariaethau presennol sydd ar gael, penderfynwyd nad oedd angen newid i gyfradd y lwfans. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd yn ymrwymo i adolygu digonolrwydd y lwfans hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn deg.

## Cynnig 3: Darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â theithio i'r Undeb Ewropeaidd

### Cynigion y Bwrdd

Mae Pennod 5 o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi'r lwfansau sydd ar gael i'r Aelodau dalu costau teithio a ysgwyddir wrth iddynt arfer eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd.

**60.** Yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, cynigiodd y Bwrdd ddileu cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd o'r Penderfyniad.

**61.** Mae'r Penderfyniad yn cynnwys darpariaethau amrywiol yn seiliedig ar deithiau'r Aelodau i ardaloedd o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan iddo ac oddi yno. Er enghraifft, mae'r Penderfyniad yn darparu bod gan bob Aelod yr hawl i wneud hyd at bedair taith ddwyffordd rhwng Cymru ac unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall o'r Undeb Ewropeaidd ar fusnes sy'n ymwneud â'r Senedd.

**62.** Gadawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol ar 31 Ionawr 2020 a daeth y cyfnod pontio dilynol i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Fel y cyfryw, nid yw'r DU yn aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd mwyach. Gan y daeth y cyfnod pontio i ben cyn dechrau'r Chweched Senedd, nid yw'r Bwrdd yn gweld sail dros gadw darpariaeth benodol ar gyfer teithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

**63.** Ym marn y Bwrdd, gellid cymhwyso darpariaethau yn y Penderfyniad ynghylch teithio rhyngwladol i deithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd gan eu bod yn gymwys i deithio mewn gwledydd tramor eraill. Nid yw teithio rhyngwladol gan yr Aelodau at ddiben cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau yn destun terfyn uchaf o ran nifer y teithiau. Yn hytrach, mae'n rhaid i bob taith gael ei thrafod a'i hawdurdodi gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

**64.** Yn unol â hynny, cynigiodd y Bwrdd ddileu neu newid (fel y bo'n briodol) yr holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd yn y darpariaethau yn y Penderfyniad sy'n ymwneud â theithiau’r Aelodau.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**65.** Nododd Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr gefnogaeth i'r cynnig hwn. Ni wnaeth ymatebwyr eraill sylwadau ar y cynnig hwn.

**66.** Yn ystod cyfarfod y grwpiau cynrychioliadol, codwyd rhywfaint o bryder y gallai dileu'r darpariaethau hyn annog peidio â gwneud cysylltiadau â'r UE yn y dyfodol.

### Penderfyniadau'r Bwrdd

**67.** Penderfynodd y Bwrdd ddileu cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd o’r Penderfyniad sy’n ymwneud â theithiau’r Aelodau. Ymhellach, nododd y Bwrdd gyfeiriad at Frwsel yn y bennod hon. Nodwyd na fyddai rheswm, heblaw am fusnes yr UE, i ddarparu’n benodol ar gyfer teithiau i Frwsel, ond dim dinas arall nad yw yn y DU. Fel y cyfryw, penderfynwyd dileu cyfeiriadau o’r fath o’r Penderfyniad.

**68.** Er bod cyfeiriad at yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei ddileu o’r Penderfyniad, nid oedd y Bwrdd yn bwriadu annog yr Aelodau i beidio â chynnal cysylltiadau â’r UE, na chreu rhai yn y dyfodol. Nid oedd y Bwrdd o’r farn y byddai ei gynigion yn cael effaith o’r fath, gan y gellir cymhwyso darpariaethau yn y Penderfyniad sy’n ymwneud â theithio rhyngwladol i deithio o fewn yr Undeb Ewropeaidd fel y maen yn gymwys i deithio mewn gwledydd tramor eraill.

## Cynigion 4 a 5: Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

### Cynigion y Bwrdd

**69.** Mae’r darpariaethau ym Mhennod 6 o’r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn rhoi’r hawl i’r Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer yr holl gostau rhesymol sy’n ymwneud â chynnal swyddfa etholaethol neu ranbarthol a chysylltu ag etholwyr, o Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**70.** Cynigiodd y Bwrdd newidiadau i ddarpariaethau yn y Penderfyniad ar y lwfans sydd ar gael i’r Aelodau dalu costau cynnal eu swyddfeydd.

**71.** Mae'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn nodi y caiff Aelod hawlio swm o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021 nad yw'n fwy na'r hyn a nodir isod:

- £18,260 os oes gan yr Aelod swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod; neu
- £4,912 os yw'r Aelod yn cyflawni dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd.

Costau deunydd ysgrifennu

**72.** Caiff yr Aelodau ddefnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu am ddeunydd ysgrifennu. Hefyd, caiff yr Aelodau ddefnyddio adnoddau a ariennir yn ganolog at yr un diben. Ar hyn o bryd, darperir adnoddau canolog o'r fath gan Gomisiwn y Senedd. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys argraffu, deunydd ysgrifennu wedi'i bersonoli a chostau postio. Cyfanswm gwariant yr Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu o gronfeydd canolog yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 oedd £107,325, sef £1,789 yr Aelod ar gyfartaledd.

**73.** Mae'r Bwrdd wedi cytuno â Chomisiwn y Senedd y dylai'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr dalu costau deunydd ysgrifennu'r Aelodau'n llawn yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnig mwy o dryloywder ar wariant llawn yr Aelodau ar gostau o'r fath.

**74.** Felly, cynigiodd y Bwrdd, fel rhan o'i ymgynghoriad, gynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer tymor nesaf y Senedd i adlewyrchu trosglwyddo'r gyllideb deunydd ysgrifennu o'r Comisiwn i'r Penderfyniad. Mae hyn yn golygu na fyddai gwariant yr Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu'n cael ei ariannu gan Gomisiwn y Senedd mwyach.

**75.** Er mwyn adlewyrchu'r newid hwn, cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr £1,800 yr Aelod. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar wariant gwirioneddol yr Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu yn 2019-20. Ni fyddai hyn yn arwain at gost ychwanegol i'r trethdalwr. Yn hytrach, bydd y gyllideb yn cael ei throsglwyddo o Gomisiwn y Senedd i Benderfyniad y Bwrdd.

*Costau sy'n deillio o newid enw'r Senedd*

**76.** Ar 6 Ebrill 2020, newidiodd enw'r Senedd o Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu The National Assembly for Wales i Senedd Cymru neu Welsh Parliament. Bydd angen diweddaru deunydd ysgrifennu'r Aelodau ar ôl etholiad nesaf y Senedd i adlewyrchu'r enw newydd. Wrth baratoi'r ddeddfwriaeth a arweiniodd at newid enw'r Senedd, amcangyfrifwyd y byddai diweddaru eitemau swyddfa'n costio £292,700, sef £4,878 yr Aelod.

**77.** Fel y cyfryw, cynigiodd y Bwrdd y bydd yr Aelodau sy'n dychwelyd, o ddechrau'r Chweched Senedd, yn cael defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i hawlio costau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad i'r Senedd. Ni chaniatawyd i'r Aelodau wneud hynny

yn ystod y cyfnod o'r dyddiad pan newidiwyd yr enw (h.y. 6 Ebrill 2020) i ddiwedd y Bumed Senedd.

**78.** Yn dilyn adolygiad o ddefnydd yr Aelodau o'r Lwfans Costau Swyddfa yn ystod y Bumed Senedd, cafwyd tanwariant sylweddol gan y rhan fwyaf o'r Aelodau.

**79.** Ar sail tanwariant presennol y Gronfa hon, cynigiodd y Bwrdd na ddylid cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr o ddechrau'r Chweched Senedd i ddarparu ar gyfer costau ychwanegol yn sgil newid enw'r sefydliad.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**80.** Mewn ymateb i'r cynnig i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer costau deunydd ysgrifennu'r Aelodau o Gomisiwn y Senedd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, gofynnodd Grŵp Llafur i'r Bwrdd ddarparu hyblygrwydd i'r Aelodau gaffael deunydd ysgrifennu drwy ddefnyddio cyllideb Comisiwn y Senedd neu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, o fewn terfyn cyffredinol y gyllideb a gynigir ar gyfer pob Aelod. Gofynnodd Grŵp Llafur, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, i'r rhesymau drosto gael eu hesbonio'n llawn.

**81.** Hefyd, nododd Grŵp Llafur fod y gyllideb deunydd ysgrifennu a gynigiwyd ar gyfer yr Aelodau (yn seiliedig ar wariant cyfartalog yr Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu yn ystod 2019/20) yn sylweddol is na'r hyn sydd ar gael i Aelodau Seneddol.

**82.** Gwrthwynebodd Grŵp y Ceidwadwyr y cynnig ar y sail bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda.

**83.** Fodd bynnag, croesawodd y Comisiynydd Safonau Dros Dro y cynnig hwn ar y sail y byddai'n cynnig mwy o dryloywder ar gyfanswm gwariant yr Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu.

**84.** Mewn ymateb i'r cynnig i beidio â chynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr o ddechrau'r Chweched Senedd, dadleuodd Grŵp y Ceidwadwyr y dylid talu costau eithriadol sy'n deillio o'r newid enw o gronfeydd canolog, nid lwfansau'r Aelodau.

### Penderfyniadau'r Bwrdd

**85.** Yn sgil yr ymatebion a gafwyd, penderfynodd y Bwrdd y byddai darpariaeth deunydd ysgrifennu yn symud o Gomisiwn y Senedd ac, yn lle hynny, y byddai'n cael ei hariannu o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Hefyd, penderfynodd y Bwrdd gynyddu gwerth y lwfans hwn £1,800 i £20,060 (neu £6,712 pan fo'r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig) ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd. Mae trosglwyddo'r gyllideb i dalu hawliadau o'r fath o Gomisiwn y Senedd i'r Penderfyniad yn golygu na fydd y gost hon yn arwain at gynnydd yn

y gost i'r trethdalwr. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn adlewyrchu'r gwariant presennol gan Aelodau o'r Senedd ar eitemau o'r fath.

**86.** Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd y penderfyniad hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau ynghylch pwy y maent yn ei ddewis fel cyflenwr ar gyfer eu hanghenion deunydd ysgrifennu. Mae hyn yn golygu y caiff yr Aelodau barhau i ddefnyddio'r trefniadau a roddwyd ar waith gan Gomisiwn y Senedd os ydynt am wneud hynny (pan fyddant yn talu'r costau o'u lwfans Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr). Fel arall, cânt hefyd ddewis eu cyflenwyr eu hunain y tu allan i drefniadau Comisiwn y Senedd, megis cwmni yn eu hetholaeth. Mae gwariant o'r fath yn ddarostyngedig i'r egwyddorion gwerth am arian a rhesymoldeb arferol a amlinellir yn y Penderfyniad a dogfen o'r enw Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd. Mae'r penderfyniad hwn yn gymwys i'r holl gostau deunydd ysgrifennu a ariannwyd o'r blaen gan Gomisiwn y Senedd gan gynnwys postio, amlenni rhagdaledig, gwasanaethau post/danfon eraill, argraffu, deunydd ysgrifennu wedi'i bersonoli ac eitemau eraill o ddeunydd ysgrifennu.

**87.** Fel gyda'r holl gostau a hawlir yn erbyn y lwfans hwn, caiff y rhain eu cyhoeddi'n rheolaidd ar Gronfa Ddata Lwfansau'r Aelodau ar wefan Comisiwn y Senedd. Bydd hyn yn cynnig mwy o dryloywder ar wariant yr Aelodau ar eitemau o'r fath.

**88.** Hefyd, penderfynodd y Bwrdd na ddylid cynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr mewn perthynas â newid enw'r Senedd ac y dylai'r Aelodau adennill y costau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad o'u Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn ystod tymor y Senedd nesaf.

**89.** Dangosodd adolygiad blaenorol gan y Bwrdd o wariant yn erbyn y lwfans Costau Swyddfa danwariant gan lawer o Aelodau. Hefyd, nododd y Bwrdd y darperir arian ychwanegol i Aelodau newydd, a'r rhai sy'n dychwelyd ar gyfer trydydd tymor olynol, ar gyfer sefydlu eu swyddfeydd. O gofio'r ystyriaethau hyn, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd angen arian ychwanegol.

## Cynigion 6 a 7: Cyflogau a Chynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau o'r Senedd

### Cynigion y Bwrdd

**90.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar newidiadau i'r darpariaethau yn y Penderfyniad ar gyflogau a chynllun pensiwn staff cymorth.

*Cyflogau staff cymorth*

**91.** Mae Pennod 7 o'r Penderfyniad yn amlinellu'r lwfans sydd ar gael i'r Aelodau ar gyfer costau cymorth staffio. Caiff yr Aelodau hawlio o'r lwfans hwn ar gyfer y cyflogau a'r cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy i'w staff cymorth.

**92.** Mae Pennod 8 o'r Penderfyniad yn cynnwys darpariaethau tebyg sy'n ymwneud â staff cymorth pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

**93.** Bydd cyflogau staff cymorth yr Aelodau unigol a phleidiau gwleidyddol yn cael eu haddasu bob blwyddyn yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), enillion canolrifol gros amcangyfrifedig swyddi cyflogeion amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

**94.** Gan fod y Bwrdd yn cynnig cyflwyno terfyn uchaf a therfyn isaf ar lefel yr addasiad blynyddol yn unol â mynegai'r ASHE ar gyfer cyflogau'r Aelodau yn y Chweched Senedd, trafododd a ddylai'r un terfynau fod yn gymwys i addasiadau cyflog staff cymorth. Cafodd staff cymorth gynnydd 4.4 y cant i'w cyflogau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (h.y. 2020/21) yn unol â ffigur yr ASHE ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyn yn gynnydd cyflog hael o'i gymharu â'r tueddiadau mewn mannau eraill yn ystod yr un cyfnod. Ar yr un pryd, mae'r Bwrdd yn ymwybodol y gallai ffigurau mynegai'r ASHE fod yn isel iawn yn y dyfodol os yw'r amodau economaidd presennol yn parhau. Mae'n bosibl y gallent hyd yn oed ostwng yn is na chyfradd chwyddiant, gan arwain at enillion negyddol. Bwriad cynnig y Bwrdd i roi terfynau ar godiadau blynyddol i gyflogau oedd osgoi posibilrwydd newidiadau sylweddol iawn i gyflogau o un flwyddyn i'r nesaf, o ganlyniad i ansefydlogrwydd ffigurau mynegai'r ASHE.

*Cynllun pensiwn staff cymorth*

**95.** Caiff Aelodau unigol a phleidiau gwleidyddol hawlio am ad-daliad cyfraniadau pensiwn a wnaed i'w staff cymorth. Yr uchafswm yw 10 y cant o'r cyflog gwirioneddol a dalwyd i'r aelod perthnasol o staff.

**96.** Yn sgil sylwadau gan staff cymorth yn ystod yr adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn 2020, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i drafod opsiynau i wella'r cynllun pensiwn staff cymorth.

**97.** Yn unol â hynny, fel rhan o'i ymgynghoriad, cynigiodd y Bwrdd sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael i ddarparu swm sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogwr i'r cynllun pensiwn staff cymorth. Byddai hyn yn galluogi'r Aelod sy'n cyflogi (Arweinydd y Blaid yn achos staff cymorth

pleidiau gwleidyddol) i dalu'r un peth â'r cyfraniadau a delir gan eu staff cymorth, hyd at dri y cant o gyflog y cyflogai. Bwriad y Bwrdd wrth gyflwyno cyfraniadau cyfatebol gan y cyflogwr yw y bydd yn gymhelliant i staff cymorth wneud cyfraniadau i'w cynlluniau pensiwn eu hunain gan helpu i gynyddu eu cynilion ymddeol.

**98.** Mae'r Bwrdd wedi amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol hyd at oddeutu £100,000 y flwyddyn ar gyfer darpariaeth pensiynau pe bai hyd at hanner y staff cymorth yn dewis talu cyfraniad tri y cant neu fwy. Fodd bynnag, mae'n ansicr ar hyn o bryd faint o staff cymorth fyddai'n dewis gwneud cyfraniad eu hunain. Ar hyn o bryd, mae tua 18 y cant o staff yn dewis gwneud cyfraniad i'w pensiwn.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**99.** Cefnogwyd y ddau gynnig gan Grŵp Llafur a staff cymorth GMB a Grŵp y Ceidwadwyr, heb ddim gwrthwynebiadau. Cydnabu ymatebwyr y byddai cyflwyno cyfraniadau cyfatebol gan gyflogwyr tuag at bensiynau staff cymorth yn helpu i hyrwyddo cynilo gan staff cymorth ar gyfer eu dyfodol.

**100.** Nododd dau ymatebwr y dylid parhau i adolygu gweithredu'r terfynau uchaf ac isaf ar addasiadau blynyddol i gyflogau staff cymorth yn ystod y Chweched Senedd.

### Penderfyniadau'r Bwrdd

*Cyflogau staff cymorth*

**101.** Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a gafwyd i gyflwyno terfynau uchaf ac isaf ar gyfer codiadau cyflog yn y dyfodol i staff cymorth. Fel gyda chyflogau'r Aelodau, cytunwyd y byddai'r ddarpariaeth hon yn osgoi'r risg o gymhwyso newidiadau cyflog yn y dyfodol y gellir barnu eu bod yn anghymesur. Hefyd, nodwyd y byddai'r ddarpariaeth hon hefyd yn sicrhau nad fyddai staff cymorth yn cael toriad cyflog pe bai'r mynegai'n dychwelyd ffigur negyddol yn y dyfodol. Wedi dod i'r casgliadau hyn, penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig hwn.

**102.** Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw fynegai blynyddol a gymhwysir i gyflogau staff cymorth o 2022-23 ymlaen yn fwy na thri y cant ac na fydd yn arwain at ostyngiad mewn cyflog. Cytunodd y Bwrdd, yn unol â'r penderfyniad uchod ar gyfer cyflogau'r Aelodau, y byddai newidiadau mewn cyflogau staff cymorth yn briodol yng nghyd-destun enillion Cymru mewn mannau eraill.

*Cynllun pensiwn staff cymorth*

**103.** Croesawodd y Bwrdd yr ymatebion cadarnhaol i'w gynnig ar bensiynau staff cymorth. O ganlyniad i hynny, penderfynodd wella'r cynllun pensiwn staff cymorth drwy gyflwyno cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at dri y cant o'r cyflog. Mae'r Bwrdd yn bwriadu gofyn i Gomisiwn y Senedd hyrwyddo'r cymhelliad ychwanegol hwn i annog staff cymorth i gynyddu eu cynilion ymddeol.

## Cynigion 8 a 9: Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

### Cynigion y Bwrdd

**104.** Mae adran 7.14 o'r Penderfyniad yn dweud y caiff Aelod hawlio hyd at £2,500 y flwyddyn (gan gynnwys TAW) tuag at gost arbenigedd polisi penodol, er mwyn gwneud darn o waith ymchwil neu ymgysylltu ag etholwyr.

**105.** Cynigiodd y Bwrdd newidiadau i'r darpariaethau yn y Penderfyniad ar yr arian sydd ar gael i'r Aelodau er mwyn talu am weithgarwch polisi, ymchwil a chyfathrebu.

**106.** Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ("y Gronfa") ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau. Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa i dalu cost lledaenu cynnwys.

Y rheolau ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

**107.** Mae'n rhaid i'r Aelodau ddilyn Rheolau a Chanllawiau'r Bwrdd ar ddefnyddio'r Gronfa y cyfeirir ati ym mharagraff 7.14.8 o'r Penderfyniad. Mae'r rheolau a'r canllawiau'n canolbwyntio i raddau helaeth ar faterion gweithredol megis sut i wneud cais am ad-daliad o gostau o'r Gronfa. Mae hefyd yn cynnwys rheolau ar ddefnyddio logos pleidiau gwleidyddol mewn cyhoeddiadau neu wrth gyfathrebu ag etholwyr.

**108.** Mae rheolau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd gan yr Aelodau wedi'u cynnwys yn nogfen Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd, sef **Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd**. Mae gwariant yr Aelodau o gronfeydd y darperir ar eu cyfer gan y Penderfyniad yn ddarostyngedig i'r rheolau a chanllawiau hynny a'r rhai y cytunodd y Bwrdd arnynt. Mae'r ddwy set o reolau a chanllawiau yn gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio logos pleidiau gwleidyddol ar ddeunyddiau a gynhyrchir gan yr Aelodau sy'n defnyddio arian cyhoeddus.

**109.** Er mwyn osgoi dryswch, cynigiodd y Bwrdd ddileu'r angen am ganllawiau penodol gan y Bwrdd ar ddefnyddio'r Gronfa, gan olygu y byddai'n ofynnol i'r Aelodau gydymffurfio â dogfen Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd, sef **Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd** yn hyn o beth.

**110.** Mae pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd yn cael lwfans cymorth i bleidiau er mwyn ariannu eu gwaith yn y Senedd. Caniateir defnyddio'r gwariant sydd ar gael dan y lwfans hwn i gyflogi staff i wneud naill ai gwaith ymchwil neu waith gweinyddol. Caniateir ei ddefnyddio hefyd i dalu am offer swyddfa. Caniateir i bleidiau ddefnyddio arian nas defnyddiwyd yn eu Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol i ariannu gwaith polisi ac ymchwil (gweler adran 8.7A o'r Penderfyniad).

**111.** O ganlyniad i'w gynnig i waredu ei ddogfen, sef Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa, cynigiodd y Bwrdd gadw cyfeiriad yn y Penderfyniad at gyfnodau pan na chaniateir defnyddio'r Gronfa. Cynigiodd y Bwrdd fewnosod geiriad yn y bennod ar y Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol sy'n nodi na chaniateir defnyddio'r Gronfa bedwar mis cyn etholiad cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae hyn wedi'i gynnwys fel rheol yn y Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa, yn ogystal ag ym Mhennod 7 o'r Penderfyniad.

Costau argraffu ac arwyddion

**112.** Trafododd y Bwrdd a oedd goblygiadau posibl ar gyfer defnyddio'r Gronfa sy'n deillio o'i gynnig i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer deunydd ysgrifennu a ariennir yn ganolog o Gomisiwn y Senedd i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Nododd y Bwrdd y byddai'r newid hwn yn caniatáu i'r Aelodau hawlio am ad-daliad o gostau argraffu ac arwyddion o'r Gronfa a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

**113.** Yn unol â hynny, cynigiodd y Bwrdd fewnosod geiriad yn y Penderfyniad i'w gwneud yn glir na chaiff yr Aelodau hawlio ad-daliad o gostau argraffu ac arwyddion o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**114.** Croesawodd Grŵp y Ceidwadwyr y cynigion i ddileu'r angen am ganllawiau gan y Bwrdd ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan nodi y byddai hyn yn symleiddio'r rheolau ar gyfer yr Aelodau. Cefnogodd Grŵp Llafur hefyd y cynigion hyn. Ni wnaeth ymatebwyr eraill sylwadau ar y cynigion hyn.

**115.** Croesawodd Grŵp Llafur hefyd y cynnig i gynnwys datganiad clir yn y Penderfyniad na chaiff yr Aelodau ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i dalu am gostau argraffu

ac arwyddion. Gofynnodd i'r Bwrdd weithio gyda Chomisiwn y Senedd i adolygu'r canllawiau presennol a sicrhau eu bod mor gynhwysfawr a chlir â phosibl ynghylch yr hyn y caniateir ac na chaniateir ei argraffu neu ei hyrwyddo wrth ddefnyddio adnoddau canolog.

**116.** Mae Grŵp y Ceidwadwyr yn gwrthwynebu'r cynnig hwn ar y sail ei fod yn cwtogi'n ddiangen ar ddefnydd cyfreithlon o'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, er enghraifft argraffu arolygon i lywio polisi. Gofynnodd y Grŵp am gadarnhad ar sut y caniateir defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu at ddibenion cyfathrebu os na chaniateir argraffu.

**Penderfyniadau'r Bwrdd**

**117.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oes angen dwy set o reolau a chanllawiau i fod yn sail i lwfans. O gofio bod y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn gymwys i'r holl adnoddau a ddefnyddir gan yr Aelodau a'u swyddfeydd, penderfynodd y Bwrdd ddileu canllawiau ychwanegol y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu a fandadwyd gan y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd. Ymhellach, mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at y Swyddog Cyfrifyddu i nodi ei fod am gynnal deialog agored er mwyn sicrhau bod addasiadau yn y dyfodol i'r Rheolau yn adlewyrchu'r profiad a gafodd y Bwrdd wrth weithredu'r Penderfyniad.

**118.** Hefyd, trafododd y Bwrdd ei gynnig ynghylch cyflwyno rhagor o destun ym Mhennod 8 i egluro'r terfyn amser ar y defnydd o'r lwfans gan bleidiau gwleidyddol yn ystod blwyddyn etholiad. Mae Rheolau a Chanllawiau presennol y lwfans eisoes yn nodi'r terfyn amser hwn. Gan fod y newid hwn yn cadarnhau'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn ymarferol, ac o gofio bod y canllawiau'n cael eu dileu fel yr amlinellir uchod, penderfynodd y Bwrdd weithredu'r cynnig hwn.

**119.** Hefyd, cynigiodd y Bwrdd mai dim ond o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr y caniateir hawlio costau argraffu ac arwyddion. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Bwrdd weithredu'r penderfyniad hwn. Mae'r Bwrdd o'r farn ei fod yn cynnig tryloywder ac eglurder ynghylch pa lwfans y caniateir ei ddefnyddio ar gyfer costau o'r fath. Yn yr achos hwn, mae argraffu'n cynnwys yr holl ddeunyddiau wedi'u hargraffu, megis hysbysiadau cymorthfeydd, cylchlythyrau ac arolygon (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny). O ran arwyddion, mae'r penderfyniad hwn yn gymwys i arwyddion swyddfa, baneri dros dro a byrddau hysbysebu (ond eto heb fod yn gyfyngedig i hynny).

## Cynigion 10 ac 11: Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

### Cynigion y Bwrdd

**120.** Fel y nodwyd uchod, mae pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd yn cael lwfans cymorth i bleidiau er mwyn ariannu eu gwaith yn y Senedd. Caniateir defnyddio'r lwfans hwn i gyflogi staff i wneud naill ai gwaith ymchwil neu waith gweinyddol ac i dalu costau caffael offer swyddfa.

Diffiniad pleidiau gwleidyddol

**121.** Mae diffiniad 'plaid wleidyddol' yn adran 'Dehongli' y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn pennu cymhwysedd ar gyfer y lwfans:

> *"Ystyr "plaid wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig neu (ii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod am gael ei ystyried yn blaid wleidyddol."*

**122.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd (1.3) yn cynnwys diffiniad o grwpiau gwleidyddol yn y Senedd.

> *At ddibenion y Ddeddf, grŵp gwleidyddol yw:*
>
> (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a chanddo o leiaf dri Aelod yn y Senedd; neu
>
> (ii) tri neu fwy o Aelodau sydd, a hwythau heb fod yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 1.3(i), wedi hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol.

**123.** Mae diffiniad 'grŵp gwleidyddol' yn Rheol Sefydlog 1.3 yn pennu cymhwysedd ar gyfer rhai breiniau yn y Senedd megis hawl i ddyrannu amser yn y Cyfarfod Llawn a lleoedd ar bwyllgorau'r Senedd.

**124.** Mae'r diffiniadau hyn ar gyfer 'plaid wleidyddol' a 'grŵp gwleidyddol' wedi'u llunio at ddibenion gwahanol sy'n gysylltiedig, ac maent yn debyg ond nid yr un peth. Mae diffiniad presennol y Bwrdd yn wahanol i'r diffiniad yn Rheol Sefydlog 1.3 gan nad yw'n ei gwneud yn ofynnol bod ymlyniad Aelod wrth blaid wleidyddol yn dibynnu ar gofrestriad y blaid honno gyda'r Comisiwn Etholiadol.

**125.** Er mwyn bod yn gliriach am ystyr 'plaid wleidyddol' yn y Penderfyniad, cynigiodd y Bwrdd mai dim ond pleidiau gwleidyddol sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol y dylid eu cydnabod fel y cyfryw at ddibenion lwfansau yn y Penderfyniad. Fodd bynnag, nododd fod y Rheolau Sefydlog yn darparu i dri neu fwy o Aelodau annibynnol (neu'r rhai nad ydynt wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol) gael statws 'grŵp gwleidyddol' (Rheol Sefydlog 1.3(ii)).

**126.** Cynigiodd y Bwrdd ddiwygio diffiniad 'plaid wleidyddol' yn y Penderfyniad i gyfeirio at Reol 1.3(ii).

**127.** Byddai unrhyw newid i'r diffiniad yn Rheol Sefydlog 1.3(ii) yn gymwys yn awtomatig i'r diffiniad yn y Penderfyniad.

**128.** Ni fyddai'r newid arfaethedig hwn yn effeithio ar y meini prawf ar gyfer y cyllid gweinyddol craidd a delir i'r gwrthbleidiau. Bydd unrhyw blaid wleidyddol gofrestredig sydd â thri Aelod neu fwy yn cael cyllid gweinyddol craidd (neu os nad ydynt yn Aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig, mae'n rhaid iddynt fod yn grŵp fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 1.3(ii).

**129.** Er mwyn rhoi effaith i hyn, cynigiodd y Bwrdd newid diffiniad 'pleidiau gwleidyddol' yn adran 'Dehongli' y Penderfyniad i'r canlynol:

> *"Ystyr "plaid wleidyddol" yw (i) grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol neu (ii) yr hyn yr ystyrir ei fod yn grŵp yn unol â Rheol Sefydlog 1.3(ii), neu (iii) Aelod unigol sydd wedi rhoi gwybod i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ei fod yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig."*

Gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol

**130.** Nodir swm y lwfans sydd ar gael i bleidiau gwleidyddol yn y Senedd ym Mhennod 8 o'r **Penderfyniad**. Mae'n dibynnu ar nifer aelodau'r blaid wleidyddol ac a yw'n rhan o'r Llywodraeth ai peidio. Bydd unrhyw blaid wleidyddol nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys tri aelod neu fwy yn cael hawlio lwfans gweinyddu craidd gwerth £54,870. Bydd unrhyw blaid wleidyddol sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn cael lwfans gweinyddu craidd gwerth £10,980 yr Aelod, hyd at £164,600; Caiff gweddill y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei ddyrannu'n gyfartal ymysg yr holl Aelodau nad yw eu pleidiau'n rhan o Lywodraeth Cymru.

**131.** Caiff cyfanswm gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ei addasu bob blwyddyn i adlewyrchu costau cynyddol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyflogau staff. Mewn blynyddoedd blaenorol, cafodd ei addasu'n flynyddol yn unol â'r un mynegai â'r hyn a

ddefnyddir ar gyfer cyflogau staff cymorth.[7] Gwnaed hynny er mwyn sicrhau bod gwerth y lwfans yn adlewyrchu'r costau cyflog uwch. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y lwfans i ariannu cyflogau staff cymorth grŵp yn unig; caiff ei ddefnyddio hefyd i ariannu costau staffio eraill, megis costau teithio a chostau offer swyddfa a deunyddiau.

**132.** Yn 2020, cytunodd y Bwrdd blaenorol i addasu'r gyfran gyfartalog a wariwyd ar gyflogau (80.2 y cant) yn unol â mynegai'r ASHE, a gweddill y lwfans yn unol â chyfradd y mynegai prisiau defnyddwyr.[8] Rhoddodd hyn gynnydd cyffredinol 3.86 y cant (a chynyddodd cyflogau 4.4 y cant yn unol â mynegai'r ASHE eleni).

**133.** Cynigiodd y Bwrdd fabwysiadu'r un fethodoleg a ddefnyddiodd y Bwrdd blaenorol y llynedd ar gyfer cynyddu cyfanswm gwerth y lwfans. Felly, cynigiodd y Bwrdd fod cyfran y cyfanswm sy'n cael ei wario ar gyflogau (sef tua 76 y cant o gyfanswm y lwfans yn y flwyddyn ariannol flaenorol) yn cael ei gynyddu'n unol â mynegai'r ASHE, sef 2.4 y cant, a bod gweddill y lwfans (24 y cant) yn cael ei addasu yn ôl cyfradd y mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi 2020, sef 0.5 y cant. Cred y Bwrdd fod gweithredu'r un fethodoleg hon yn darparu cynnydd i'r lwfans a fyddai'n galluogi pleidiau gwleidyddol i dalu costau codiadau cyflog staff cymorth, heb gynyddu swm cyffredinol y lwfans yn ddiangen.

**134.** Mae cynnig y Bwrdd yn golygu y bydd cyfanswm gwerth y lwfans ar gyfer 2020-21, sef £999,070, yn cael ei gynyddu 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau'r Chweched Senedd.

### Barn am gynigion y Bwrdd

**135.** Croesawodd Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr y cynnig i gynyddu gwerth y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol ac ni chafwyd gwrthwynebiadau.

**136.** Croesawodd Grŵp y Ceidwadwyr a Grŵp Llafur y cynnig i newid diffiniad y Bwrdd ar gyfer 'plaid wleidyddol'. Nododd Grŵp Llafur ei bod yn bosibl bod achos dros newid y geiriad newydd arfaethedig ymhellach i nodi bod "plaid wleidyddol" yn cyfeirio at blaid sydd wedi cystadlu seddau yn etholiad blaenorol y Senedd, ar y sail y byddai hyn yn golygu mai dim ond pleidiau yn y Senedd sydd â mandad democrataidd gan bobl Cymru y gofynnir i drethdalwyr eu

---

[7] Caiff tâl Aelodau, deiliaid swyddi a staff cymorth ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol â'r newid yn enillion canolrifol gros blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru yn ôl yr ASHE rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol.

[8] Pennod 8 o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd, Mehefin 2020

cefnogi’n uniongyrchol. Nododd Grŵp Llafur hefyd y gallai'r newid hwn helpu i osgoi creu grwpiau gwleidyddol newydd nad oes ganddynt fandad democrataidd sefydledig.

**137.** Gwrthwynebwyd y cynnig hwn gan y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio ar y sail y byddai'n cyfyngu ar allu Aelodau Annibynnol o’r Senedd, sydd wedi gwrthod gwleidyddiaeth plaid, i ffurfio grŵp. Nododd y Grŵp y bydd y Bwrdd Taliadau, drwy wneud y newid hwn, yn galluogi'r Pwyllgor Busnes, nad oes ganddo gynrychiolaeth gan Aelodau Annibynnol o’r Senedd, i newid y meini prawf ar gyfer ffurfio grŵp. Caiff Pwyllgor Busnes y Senedd newid y meini prawf ar gyfer ffurfio grwpiau yn y Senedd drwy gynnig newidiadau i Reol Sefydlog 1.3, i'w derbyn gan y Senedd. Nid oedd y Bwrdd yn glir sut y byddai newidiadau i ddiffiniad y Bwrdd ar gyfer 'plaid wleidyddol' yn hwyluso unrhyw newid o'r fath.

**Penderfyniadau'r Bwrdd**

**138.** Nododd y Bwrdd fod y rhai a ymatebodd ynglŷn â gwerth y lwfans yn cytuno â chynnig y Bwrdd i weithredu’r un fethodoleg â’r flwyddyn flaenorol. Cytunodd y Bwrdd fod hyn yn gynnydd teg i’r lwfans. Byddai hyn yn galluogi pleidiau gwleidyddol yn y Senedd i dalu costau codiadau cyflog i’w staff, heb gynyddu swm cyffredinol y lwfans yn ddiangen. Fel y cyfryw, penderfynodd y Bwrdd gynyddu gwerth y lwfans 1.94 y cant i £1,018,500 ar gyfer dechrau’r Chweched Senedd.

**139.** Hefyd, trafododd y Bwrdd y safbwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i’w gynnig i ddiwygio diffiniad “plaid wleidyddol” yn y Penderfyniad. Roedd yn ystyriol o’r gwaith sy’n cael ei wneud gan y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â diffiniad grwpiau pleidiau gwleidyddol yn y Rheolau Sefydlog. Adeg ei drafodaeth ar y cynnig, nid oedd y Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad ar yr un cynnig ar gyfer newid. Serch hynny, cytunodd y Bwrdd ei bod yn bwysig ei fod yn gwneud penderfyniadau sy’n annibynnol ar benderfyniadau eraill yn y Senedd.

**140.** Mewn ymateb i’r pwynt a gododd Grŵp Llafur Cymru, ni chynigiodd y Bwrdd wneud diwygiad arall i gyfyngu’r lwfans hwn i Aelodau sy’n perthyn i bleidiau sydd wedi cystadlu seddau yn yr etholiad blaenorol. Roedd y Bwrdd o’r farn y gallai fod nifer o resymau pam y mae pleidiau o’r fath yn ffurfio yn ystod tymor Senedd. Nid oes sbardunau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer is-etholiadau pe bai Aelod yn newid plaid yn ystod tymor Senedd. Mae’r Bwrdd o’r farn nad ei rôl ef yw cyfyngu’r adnoddau a ddarperir dan y Penderfyniad yn y modd hwn.

**141.** Wrth drafod y pwynt a gododd y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio, mae’r Bwrdd o’r farn mai dim ond i Aelodau o blaid wleidyddol (â thri neu fwy o Aelodau) sydd wedi cofrestru gyda’r Comisiwn Etholiadol y dylid dyrannu arian gweinyddu craidd. Roedd y

Bwrdd o’r farn, pan fo gweithdrefnau’r Senedd ei hun yn caniatáu i grwpiau eraill gael eu ffurfio nad ydynt yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig, ei bod yn briodol y dylent gael hawlio cymorth i ymgymryd â’u rôl seneddol yn effeithiol. O gofio hyn, penderfynodd y Bwrdd weithredu diffiniad arfaethedig plaid wleidyddol yn y Penderfyniad, ac y dylai gynnwys cyfeiriad at ddiffiniad ‘grŵp gwleidyddol’ yn Rheol Sefydlog 1.3(ii) y Senedd.

**142.** Ymhellach, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, mae’r Bwrdd yn ystyriol o gost gynyddol y lwfans, yn ogystal â gweithrediad cyffredinol y lwfans. Er enghraifft, mae cyfanswm gwerth y lwfans yn fwy hael nag ar gyfer seneddau datganoledig eraill yn y DU. Mae’r Bwrdd o’r farn bod fformiwla bresennol y lwfans wedi gweithredu fel y bwriadwyd yn ystod y tymor presennol, hyd yn oed wrth i ymlyniad wrth blaid a grwpiau newid (h.y. cyfyngu ar y costau cyffredinol a chefnogi’r holl Aelodau). Fodd bynnag, mae’r Bwrdd am gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddiben y lwfans yn ystod tymor y Senedd nesaf.

## Materion eraill a godwyd

**143.** Ailadroddodd y Comisiynydd Safonau Dros Dro yn ei ymateb y farn a rannwyd o’r blaen â'r Bwrdd y dylai fod yn ofynnol i’r Aelodau gadw cofnod o oriau gwaith eu staff cymorth yn ystod yr amser y mae Comisiwn y Senedd yn talu amdano. Nododd y Comisiynydd bryder bod diffyg cofnod o'r fath yn arwain at risg bod Comisiwn y Senedd yn talu am amser y mae staff cymorth yn ei dreulio ar weithgarwch gwleidyddol plaid.

**144.** Cydnabu’r Comisiynydd Safonau Dros Dro yn ei ymateb fod hyn yn fater i Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd ei ystyried. Ers hynny, mae Swyddog Cyfrifyddu'r Senedd wedi ysgrifennu at y Bwrdd i esbonio bod y **Rheolau a Chanllawiau ar ddefnyddio adnoddau’r Senedd** wedi’u diwygio i'w gwneud yn ofynnol i’r Aelodau gadw cofnod o oriau gwaith eu staff mewn perthynas â dyletswyddau’r Aelodau ar gyfer cyfnod yr etholiad eleni.

**145.** Nododd y Bwrdd bryderon a gododd y Comisiynydd Safonau Dros Dro am ddiffyg gofyniad i’r Aelodau gadw cofnodion o oriau gwaith eu staff cymorth, yn benodol diffyg cofnodion o amser a dreuliwyd gan staff cymorth ar waith gwleidyddol neu etholiadol plaid yn ystod eu horiau swyddfa arferol.

**146.** Nododd y Bwrdd fod dogfen y Swyddog Cyfrifyddu, sef Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i’r Aelodau gadw cofnodion o’r fath yn ystod cyfnod etholiadol. Mae’r Bwrdd o’r farn y bydd gwneud gwaith cofnodi o’r fath yn orfodol yn darparu cyfrif gan yr Aelodau ar y defnydd o adnoddau Comisiwn y Senedd fel y mae’n rhaid iddynt ar gyfer yr holl feysydd eraill o’r lwfansau.

**147.** Gofynnodd un o'r aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad a ddylai Aelodau o'r Senedd sy'n cael hawlio lwfans i helpu i dalu costau a ysgwyddir mewn perthynas ag anabledd neu anableddau gael hawlio Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) neu Daliad Annibyniaeth Personol (TAP) hefyd. Nododd yr ymatebwr y byddai'n amhriodol caniatáu i'r Aelodau hawlio'r lwfans i'r anabl y darperir ar ei gyfer yn y Penderfyniad a'r LBA neu'r TAP gan y Llywodraeth sy'n destun prawf modd, gan y byddai hyn yn gyfystyr â darpariaeth ddwbl o bwrs y wlad.

**148.** Cafodd y lwfans sydd ar gael i'r Aelodau er mwyn eu helpu i dalu costau yr eir iddynt mewn perthynas ag anabledd neu anableddau ei gyflwyno gan y Bwrdd blaenorol i'w gynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd. Nid oedd yn gynnig a gyflwynwyd fel rhan o ymgynghoriad y Bwrdd hwn ar newidiadau i'r Penderfyniad hwnnw.

**149.** Bwriad y lwfans i'r anabl y darperir ar ei gyfer gan y Penderfyniad yw helpu'r Aelodau i dalu costau ychwanegol addasiadau rhesymol sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau. Er enghraifft, gall hyn gynnwys defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain er mwyn gallu ymgysylltu ag etholwr. Mae'r LBA a'r TAP a ddarperir gan y Lywodraeth y DU yn fodd o gefnogi unigolion gyda chostau byw ychwanegol sy'n deillio o anabledd neu anableddau. Felly, mae dibenion y lwfans i'r anabl y darperir ar ei gyfer yn y Penderfyniad yn dra gwahanol i ddiben y lwfansau a ddarperir gan y Llywodraeth.

**150.** Ymhellach, bwriad penderfyniadau'r Bwrdd oedd dileu rhwystrau posibl a allai, fel arall, atal pobl â'r gallu a'r ymroddiad i fod yn Aelodau o'r Senedd rhag sefyll etholiad ac annog amrywiaeth mewn cynrychiolaeth. Ni welodd y Bwrdd reswm i newid hyn.

## Penderfyniadau eraill a ymgorfforwyd yn y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd

**151.** Yn ychwanegol at y newidiadau a amlinellwyd yn ymgynghoriad y Bwrdd, yn ystod ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, nododd y Bwrdd nifer o newidiadau mân. Mae hyn yn cynnwys rhai newidiadau mân i destun cynigion a fabwysiadodd y Bwrdd.

**152.** Hefyd, nododd y Bwrdd ddwy ddarpariaeth sydd ar goll o'r Penderfyniad, ond sy'n adlewyrchu penderfyniadau a wnaeth y Bwrdd o'r blaen.

### *Cymorth o gronfeydd canolog*

**153.** Ar adegau amrywiol, mae'r Bwrdd a'i ragflaenwyr wedi darparu ystod o gymorth i'r Aelodau y tu allan i'r lwfansau a nodwyd yn benodol dan y Penderfyniad. Fel arfer, mae'r

cymorth hwnnw wedi'i ddarparu mewn ymateb i amgylchiadau penodol. Yn y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi darparu ystod o gymorth o gronfeydd canolog er mwyn sicrhau bod gan yr Aelodau adnoddau priodol i ymateb i'r heriau sy'n codi o ganlyniad i bandemig Covid-19.

**154.** Mae adran 2.5 newydd wedi'i mewnosod yn y Penderfyniad i adlewyrchu'r dull gweithredu hwn. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd hyn yn sicrhau tryloywder ac eglurder.

*Amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus*

**155.** Fel rhan o'i ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, penderfynodd y Bwrdd blaenorol y dylid caniatáu i'r Aelodau ganiatáu i staff cymorth gael amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus. Dim ond i hyfforddi gyda lluoedd wrth gefn; mynd i gyfarfodydd cyrff cyhoeddus; a chymryd rhan mewn gwasanaeth rheithgor y gallai hyn fod yn gymwys.

**156.** Yn dilyn hynny, ym mis Ionawr 2020, cytunodd y Bwrdd blaenorol y dylai darpariaethau'r polisi fod yn gyson â'r darpariaethau sydd ar gael i staff cymorth yn seneddau eraill y DU.

**157.** Er mwyn darparu tryloywder mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnwys cyfeiriad penodol at y polisi yn y Penderfyniad ym Mhenodau 7 ac 8.

# 6. Cydraddoldeb

**158.** Fel y nodwyd yn y **ddogfen ymgynghori**, nod y **Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, yw sicrhau nad yw'r cymorth a'r tâl a gynigir i Aelodau o'r Senedd yn atal pobl rhag sefyll etholiad i'r Senedd. Er enghraifft, mae'r Penderfyniad yn cynnwys:

- lwfans i helpu'r Aelodau i dalu costau sy'n ymwneud ag anabledd neu anableddau;
- adnoddau ychwanegol i helpu gyda llwyth gwaith Aelod yn ystod cyfnod o absenoldeb rhiant;
- cyfraniad at gostau gofal plant a/neu ddibynyddion pan fo'n rhaid i'r Aelodau weithio y tu hwnt i oriau sy'n ystyriol o deuluoedd, gan adlewyrchu trefniadau tebyg sydd ar waith ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**159.** Mae deall y cymhellion dros sefyll etholiad, a'r rhwystrau rhag gwneud hynny, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Yn unol â hynny, fel rhan o'i ymgynghoriad ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd, gwahoddodd y Bwrdd safbwyntiau ar y canlynol:

- a allai'r cynigion yr ymgynghorodd arnynt fod â goblygiadau i bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- a allai'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gael effaith wirioneddol neu effaith bosibl ar bobl sy'n uniaethu â nodweddion gwarchodedig.

**160.** Ni chododd yr un o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad faterion yn ymwneud ag effaith wirioneddol neu bosibl cynigion y Bwrdd ar bersonau â nodweddion gwarchodedig. Ni nododd y Bwrdd ei hun effeithiau o'r fath yn codi o'i gynigion.

# 7. Edrych tua'r dyfodol

**161.** Bwriad y penderfyniadau a nodir yn yr adroddiad hwn yw sicrhau bod y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau'n ateb y gofyn ddechrau'r Chweched Senedd. Yn benodol, bwriad penderfyniadau'r Bwrdd ar gyflogau'r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yw sicrhau bod cyflogau o'r fath yn adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd heriol yng Nghymru adeg y penderfyniadau hynny wrth ddarparu cyflog teg hefyd i'r Aelodau sy'n adlewyrchu cymhlethdod y gwaith y maent yn ei wneud.

**162.** Ni fydd rôl yr Aelodau wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a chynrychioli buddiannau eu hetholwyr yn newid yn ystod y Chweched Senedd. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau pan fydd y rôl honno'n cael ei chyflawni yn llawer llai eglur. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid yw'n hysbys am ba hyd y bydd y pandemig yn parhau i effeithio ar y ffordd y mae'r Aelodau'n ymgymryd â'u gwaith. Nid yw'n hysbys a fydd newidiadau diweddar i drefniadau gwaith yr Aelodau'n cael eu gwneud yn barhaol wrth i'r pandemig ostegu.

**163.** Y tu hwnt i'r pandemig, nid yw goblygiadau llawn Brexit ar waith yr Aelodau yn ystod y Chweched Senedd yn gwbl hysbys chwaith. Mae cyfansoddiad y DU yn y dyfodol yn bendant yn parhau i fod yn bwnc llosg. Yn amlwg, mae'r cyd-destun y bydd yr Aelodau'n cyflawni eu dyletswyddau yn ystod y Chweched Senedd yn aneglur a gallai newid yn sylweddol gyda threigl amser.

**164.** O gofio hyn, bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn darparu adnoddau digonol i alluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau'n effeithiol; lefel o dâl a lwfansau i'r Aelodau sy'n briodol dan yr amgylchiadau ariannol yng Nghymru; ac, yn hanfodol, yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

**165.** Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bwrdd yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac yn ymgynghori â hwy ar newidiadau eraill i'r Penderfyniad. Bydd hefyd yn trafod y dystiolaeth, y wybodaeth a'r data diweddaraf sydd ar gael er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arall o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau cymdeithasol, cyfansoddiadol ac economaidd yng Nghymru.

# Atodiad A: Aelodaeth y Bwrdd

## Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)



Ar hyn o bryd, mae Elizabeth yn aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Grŵp Hendre. Mae'n cadeirio Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd CNC. Cyn hynny, roedd yn aelod o Fwrdd Scottish Power Energy Networks, yn Ymddiriedolwr ac yn aelod Bwrdd o'r elusen Leonard Cheshire, lle roedd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd, mae wedi bod yn aelod annibynnol o Fwrdd Taliadau Swyddfa Archwilio Cymru, a hi oedd Cadeirydd cyntaf WCVA Services Ltd. Mae hefyd wedi cadeirio Tasglu Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar gyfer Dinas-ranbarthau.

Treuliodd ddechrau ei gyrfa yn Senedd Ewrop ac Awdurdod Datblygu Cymru, cyn cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr CBI Cymru, yna'n Gyfarwyddwr Cyfathrebu Cymdeithas y Cwmnïau Trenau ac yna bu'n rheoli cwmni chwilio am uwch-swyddogion yng Nghaerdydd a Llundain. Mae ganddi radd o Brifysgol Caerdydd, PhD a doethuriaeth er anrhydedd o Abertawe, a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr Cymraes y Flwyddyn, ac mae'n Gymrawd Mygedol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
Cafodd Elizabeth ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ym mis Mehefin 2020.

## Ronnie Alexander



Mae Ronnie yn gyn-Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i Lywodraeth Cymru. Mae'n Eiriolwr Defnyddwyr i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn aelod o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Yn ogystal, mae Ronnie yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Estyn, yn Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae'n aelod o'r Pwyllgorau Safonau ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Mae hefyd yn cadeirio'r Panel Taliadau Annibynnol ar Lwfansau'r Aelodau ar gyfer Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf ac mae'n Aelod Panel dros Gyngor Dinas Bryste.

Roedd gan Ronnie yrfa yn y gwasanaeth sifil am dros 20 mlynedd, ac roedd newid hinsawdd a chynaliadwyedd yn ddiddordebau penodol ganddo. Cyn hynny bu'n gweithio i nifer o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr mewn meysydd fel gorfodi a gwasanaethau cymorth strategol. Mae ganddo hanes sylweddol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a gwleidyddion ar bob lefel i ddylanwadu ar bolisi.

Cadarnhaodd Comisiwn y Cynulliad benodiad Ronnie i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2017. Cymerodd ei le ar y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2017.

## Michael Redhouse



Ar hyn o bryd, Michael Redhouse yw Pennaeth EMES Consulting, sef cwmni a sefydlodd yn 2002 sy'n helpu llawer o sefydliadau mawr gyda materion taliadau a buddion. Graddiodd Michael mewn mathemateg o'r Brifysgol Agored, ac mae ei yrfa wedi cynnwys cyfnodau fel Partner yn Ernst and Young a Chyfarwyddwr Polisi Cyflogaeth yn Diageo. Mae Michael wedi bod yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth APEX, sy'n cefnogi troseddwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith, ac fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Hosbis St Luke yn Harrow.

Mae Michael yn Aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB), sy'n edrych ar gyflogau, dyletswyddau proffesiynol ac amser gweithio athrawon ysgol yng Nghymru a Lloegr, ac sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Michael wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ers 2015.

## Y Fonesig Jane Roberts



Mae Jane yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn Ysgol Fusnes y Brifysgol Agored. Rhwng 2000 a 2005, Jane oedd Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Camden yn Llundain, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu mewn nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Comisiwn Cynghorwyr yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Cadeirydd Parenting UK, aelod o fwrdd Ofsted, Cadeirydd Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd ac, ar hyn o bryd, hi yw Cadeirydd yr elusen Living Streets. Mae hefyd yn aelod o Grŵp Cynghori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Urddwyd Jane yn DBE yn 2004. Yn broffesiynol, mae'n feddyg ac yn Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc er Anrhydedd â phrofiad o uwch-reoli ym maes gofal iechyd yn y GIG.

Mae Jane wedi cyhoeddi nifer o erthyglau academaidd ym maes pediatreg, seiciatreg a gwleidyddiaeth. Golygodd 'The Politics of Attachment' (1996) ar y cyd â Sebastian Kraemer, a hi yw awdur 'Losing Political Office' (2017).

## Hugh Widdis



Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Llywodraeth Gogledd Iwerddon yw Hugh, ac ef yw'r Cyfreithiwr Adran ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae ganddo 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol seneddol a llywodraeth. Cyn ymuno â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hugh oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Cyn hynny, gweithiai ym maes ymchwil, fel bargyfreithiwr mewn practis preifat ac fel cyfreithiwr mewnol i gwmni blaenllaw ym maes gwasanaethau ariannol. Mae hefyd wedi gweithio yn swyddfa gyfreithiol Senedd yr Alban, ac ar gyfraith gwahaniaethu yn Swyddfa’r Prif Weinidog a’r Dirprwy Brif Weinidog. Roedd yn aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn Cynulliad Cymru (ACARAC) rhwng 2012 a 2019. Mae Hugh yn fargyfreithiwr ac yn aelod o Far Iwerddon a Bar Gogledd Iwerddon.

Cafodd Hugh ei benodi i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ym mis Mehefin 2020.